



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democraidd (01443 424098)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod rhithwir o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 11EG TACHWEDD, 2020** am **5.00 PM.**

AGENDA

Tudalennau

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. CYHOEDDIADAU

3. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 23 Medi 2020, yn rhai cywir.

3 - 16

LLYWODRAETHU AGORED:

4. DATGANIADAU

Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet:

5. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU

Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.

(**Nodwch:** Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.)

17 - 26

RHAGLEN WAITH Y CYNGOR – ER GWYBODAETH I AELODAU

[Rhaglen Waith y Cyngor 2020-21](#)

6. DIWEDDARIAD MEWN PERTHYNAS Â'R CORONAFEIRWS YN RHONDDA CYNON TAF

Derbyn datganiad sefyllfa mewn perthynas â'r Coronafeirws yn y Fwrdeistref Sirol.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

7. NEWID I AELODAETH

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

27 - 30

8. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

At: Pob Aelod o'r Cyngor



RHONDDA CYNON TAF

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Cyngor a gafodd ei gynnal ddydd Mercher 23 Medi 2020 am 5.00pm

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M. Adams	Y Cynghorydd R. Bevan
Y Cynghorydd H. Boggis	Y Cynghorydd J. Bonetto
Y Cynghorydd S. Bradwick	Y Cynghorydd J. Brencher
Y Cynghorydd A. Calvert	Y Cynghorydd G. Caple
Y Cynghorydd A Chapman	Y Cynghorydd A. Cox
Y Cynghorydd A. Crimmings	Y Cynghorydd J. Cullwick
Y Cynghorydd A Davies-Jones	Y Cynghorydd G. Davies
Y Cynghorydd L. De Vet	Y Cynghorydd M. Diamond
Y Cynghorydd J. Edwards	Y Cynghorydd Sera Evans
Y Cynghorydd S. Evans	Y Cynghorydd J Davies
Y Cynghorydd M. Forey	Y Cynghorydd A. Fox
Y Cynghorydd H. Fychan	Y Cynghorydd E. George
Y Cynghorydd D. Grehan	Y Cynghorydd E. Griffiths
Y Cynghorydd M. Griffiths	Y Cynghorydd J Harries
Y Cynghorydd G. Holmes	Y Cynghorydd L. Hooper
Y Cynghorydd G. Hopkins	Y Cynghorydd P. Howe
Y Cynghorydd G. Hughes	Y Cynghorydd P. Jarman
Y Cynghorydd G. Jones	Y Cynghorydd L. Jones
Y Cynghorydd W. Jones	Y Cynghorydd R. Lewis
Y Cynghorydd W. Lewis	Y Cynghorydd C. Leyshon
Y Cynghorydd A. Morgan	Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd M. Norris	Y Cynghorydd D. Owen-Jones
Y Cynghorydd W Owen	Y Cynghorydd S. Pickering
Y Cynghorydd M. Powell	Y Cynghorydd S Powell
Y Cynghorydd S. Rees-Owen	Y Cynghorydd S. Rees
Y Cynghorydd A. Roberts	Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd G. Stacey	Y Cynghorydd E Stephens
Y Cynghorydd G. Thomas	Y Cynghorydd W Treeby
Y Cynghorydd L Walker	Y Cynghorydd M. Weaver
Y Cynghorydd M. Webber	Y Cynghorydd E. Webster
Y Cynghorydd D. Williams	Y Cynghorydd J. Williams
Y Cynghorydd T. Williams	Y Cynghorydd R. Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B. Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr C. Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Mr G. Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran – Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N. Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr A. Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

1 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Belzak, J Elliott, J James, R. Turner, M Fidler Jones, K Jones, S Morgans, M Tegg, G Williams and C Willis.

1 Croeso a Chyflwyniadau

Cafodd cyflwyniadau eu gwneud gan Arweinwyr y Grwpiau a oedd yn bresennol:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan (Grŵp Llafur)

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Walker (Yn absenoldeb Arweinydd y Grŵp - Grŵp Annibynnol)

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Hooper (Yn absenoldeb Arweinydd y Grŵp - Grŵp Ceidwadol)

2 Datganiad o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

3 Cyhoeddiadau

- Cyflwynodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Hooper ddeiseb ar ran trigolion Crib-Y-Lan ac anogodd y Cyngor i adalw'n gyfreithiol y bond datblygwr a oedd ar waith a cheisio cwblhau'r gwaith ffordd er budd trigolion Crib-y-Lan.

4 Cofnodion

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion 24 Gorffennaf 2020 yn rhai cywir yn amodol ar bod y Cynghorydd J Rosser yn bresennol yn y cyfarfod a newid y gair olaf yn y paragraff olaf ar dudalen 11, a ddylai ddweud 'hwylustod' nid 'profiad' fel y nodir yn y Cofnodion: -

Roedd y Prif Weinidog ar y pryd hefyd yn Aelod Cynulliad dros Ben-y-bont ar Ogwr. Mae gyda fi amheuan o hyd bod yr ymrwymiad a roddir i gadw darpariaeth damweiniau ac achosion brys 24/7 yn un tymor hir, wedi'i lywio gan farn feddygol yn hytrach na *hwylustod* gwleidyddol.

5 Atal Rheolau Sefydlog

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd ddatganiad mewn perthynas ag atal Rheol Trefniant 15.1 y Cyngor. Nododd, er mwyn ei gwneud yn haws cynnal y cyfarfod dros Zoom, fod Arweinwyr y Grwpiau wedi cytuno ymlaen llaw, lle y bydd pleidlais, bydd Arweinydd y Grŵp yn pleidleisio ar ran holl aelodau'r grŵp ar yr eitem.

Er mwyn rhoi'r gweithdrefnau diwygiedig ar waith, cynigiodd y Dirprwy

Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor

6 Datganiadau

Datganiad gan Ddirprwy Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â Sul y Cofio.

Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd y bydd modd i Aelodau brynu torchau gan Uned Busnes y Cyngor cyn dydd Sul y Cofio ar 8 Tachwedd 2020, er mwyn talu teyrnged. Cafodd y Cyngor wybod y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer Sul y Cofio o dan y cyfyngiadau cyfredol yn ystod y diwrnodau nesaf. Yn rhan o'i rôl fel Hyrwyddwr y Lluedd Arfog, pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd bwysigrwydd talu teyrnged i bawb sydd wedi ymladd a cholli'u bywydau mewn rhyfel.

7 Cwestiynau gan yr Aelodau

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Evans i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cryfach, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis:-

"A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet wneud datganiad mewn perthynas â pherfformiadau'r celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol yn ystod pandemig y coronafeirws? "

Ymateb gan y Cyngorydd R Lewis:

"Roedd y Cyngorydd Rhys Lewis yn cydnabod bod sector y Celfyddydau a Diwylliant ar draws y wlad wedi wynebu chwe mis heriol felly mae Swyddogion y Cyngor wedi bod yn arloesol wrth ddarparu gwasanaethau'r celfyddydau a gwasanaethau diwylliannol ar-lein. Mae nifer o berfformiadau a gweithgareddau cyfranogi fel gweithgareddau canu trwy gyfrwng y Gymraeg a gweithgareddau symud i blant wedi'u trefnu. Bydd perfformiadau a gweithgareddau pellach yn dod yn ystod yr hydref. Mae rhaglenni Youth Arts and Sonic Youth sy'n rhan o'r diwydiant cerddoriaeth wedi parhau ochr yn ochr â rhaglenni allgymorth eraill i bobl ifanc. Mae'r rhaglenni yma wedi darparu mynediad at diwtoriaid proffesiynol ac yn hyrwyddo datblygu sgiliau. Cafodd hyn ei ddefnyddio yn rhan o brosiect Forte a hyfforddiant a mentora un-wrth-un. Mae swyddogion wedi ymgysylltu ar-lein gan ddefnyddio gorsafoedd radio ar gyfer y preswylwyr hynny sydd mewn tloidi digidol."

Cwestiwn ategol gan y Cyngorydd Sheryl Evans i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cryfach, Llesiant a Gwasanaethau Treftadaeth, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis: -

"Mynegodd y Cyngorydd Evans ei diolch i'r Cabinet am ddod o hyd i gyfleoedd ar-lein ar gyfer ein cymunedau a gofynnodd a fydd cyfleoedd pellach ar gyfer darparu adloniant ar-lein, fel y Pantomeim? "

Ymateb gan y Cynghorydd R Lewis:

“Mae dros 15,000 o bobl yn mynychu'r Pantomeim yn rheolaidd felly mae swyddogion y Cyngor yn ystyried hyn yn ogystal â chyfleoedd ar-lein eraill i ddod ag ychydig o hwyl y Nadolig i drigolion yn ystod y cyfnod anodd yma.”

Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Edwards i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“A oes modd i Arweinydd y Cyngor / yr Aelod o'r Cabinet amlinellu pa fesurau sydd ar waith yn ysgolion RhCT er mwyn ymateb i achosion coronafeirws a gadarnhawyd?”

Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:

“Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod pob ysgol yn RhCT wedi derbyn cyfarwyddyd manwl a gweithdrefnau ynglŷn â'r broses i'w dilyn os ydyn nhw'n amau bod achos positif yn yr ysgol. Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud yn ystod cyfnod yr haf. Mae'r gwaith yma wedi cynnwys yr ysgolion unigol, Awdurdodau Addysg Lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a swyddogion Cyngor RhCT. Os bydd achos(ion) positif, bydd yr ysgol yn cyflwyno'r wybodaeth berthnasol i un mewNFLwch penodol ar gyfer yr adran berthnasol yn y Cyngor fel bod yr ysgolion yn cael eu cefnogi trwy gydol y broses. Mae ysgolion hefyd wedi derbyn llythyrau templed y mae modd iddyn nhw eu defnyddio i gyfathrebu â theuluoedd os bydd achos positif yn cael ei nodi. Dywedodd yr Arweinydd fod dros 4,000 o staff wedi'u lleoli mewn ysgolion a dros 30,000 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion ac mae'r mwyafrif helaeth o achosion positif a nodwyd wedi bod y tu allan i amgylchedd yr ysgol felly y cyngor i rieni yw bod yr ysgol yn parhau i gynrychioli'r lle mwyaf diogel i blant ar hyn o bryd.”

Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Edwards i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau bod addysg yn parhau os oes gofyn i ysgol gau oherwydd nifer uchel o achosion wedi'u cadarnhau?”

Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:

“Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod gan ysgolion unigol eu gweithdrefnau cadarn eu hunain ar waith o ran hunan-ynysu a dysgu o bell. Mae yna gweithdrefnau diogelu ar waith hefyd ac mae modd i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ymateb yn fanylach os oes pryderon ynghylch ysgolion unigol.”

Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple i Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd A Morgan:

“A oes modd i Arweinydd y Cyngor roi diweddariad mewn perthynas â'r archwiliadau sy'n cael eu cynnal mewn archfarchnadoedd ar draws RhCT?”

Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:

"I ddechrau, aeth carfanau lechyd y Cyhoedd, Safonau Masnach ac lechyd yr Amgylchedd i ymweld â 45 o'r Archfarchnadoedd mwyaf. Cafodd nifer o Hysbysiadau Gwella'u cyhoeddi os oedd angen cymryd camau gweithredu. Mae'r mwyafrif helaeth o'r archfarchnadoedd a'r busnesau llai yn ceisio cydymffurfio. Mae'n cynnwys gwirio a oes hylif diheintio dwylo ar gael yn y siop, gwirio bod deunyddiau glanhau ar gael ar gyfer basgedi a throlïau a sicrhau bod yr archfarchnadoedd a'r siopau yn rheoli nifer y cwsmeriaid yn y siop. Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai diweddariad yn cael ei roi mewn perthynas â'r Hysbysiadau Eiddo hynny nes ymlaen yn ystod y cyfarfod."

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"Rwy'n ddiolchgar am yr ymateb cynhwysfawr ac rwy'n canmol yr Arweinydd am sefydlu trefn orfodi effeithiol ar draws Tafarndai, Archfarchnadoedd a Chlybiau Cymdeithasol i sicrhau'u bod yn cydymffurfio â rheoliadau Covid-19 i arafu lledaeniad y feirws ac amddiffyn lechyd y Cyhoedd. All yr Arweinydd ddweud rhagor am effaith yr archwiliadau ar adeiladau Trwyddedig."

Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:

"Mae swyddogion Trwyddedu'r Cyngor yn cael eu cefnogi gan Heddlu De Cymru a charfanau gorfodi'r Cyngor er mwyn ymweld â chynifer o Safleoedd Trwyddedig ag sy'n bosibl. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi'r manylion mewn perthynas â'r Hysbysiadau Gwella neu Hysbysiadau Cau ar wefan y Cyngor yn ogystal â chyhoeddi'r manylion ar y safle ei hun. Mae 4 Safle Trwyddedig ar (6 o bosibl a fydd yn cael eu cadarnhau yn ddiweddarach) wedi cael hysbysiadau o fewn y 24 awr ddiwethaf, bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhannu nes ymlaen yn y cyfarfod."

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"Sut ydych chi'n cynnwys tystiolaeth y trigolion effeithiwyd gan y llifogydd sydd wedi taro ein cymunedau eleni i'r adroddiad ynglŷn â'r llifogydd, gan gynnwys y cynlluniau adfer ar gyfer y cymunedau hyn?"

Ymateb gan y Cynghorydd Morgan:

"Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod y Cyngor wedi ymrwymo i drafod adroddiadau ymchwilio'r meysydd hynny y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdany'n nhw e.e. llifogydd dŵr wyneb a cheuffosydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am lifogydd sy'n dod o'r afonydd. Mae'r Cyngor wedi gofyn i ymgynghorwyr gynnal arolygon gyda thrigolion yn yr ardaloedd hynny sydd wedi'u heffeithio fwyaf megis Pentre a lleoliadau eraill, er mwyn casglu datganiadau a chasglu tystiolaeth ffotograffig a fideo. Bydd y Cyngor yn trafod adroddiad CNC, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Hydref, a'i adroddiad Statudol ei hun yn rhan o broses Craffu'r Cyngor er mwyn rhoi cyfle i Aelodau ymgysylltu a chyfrannu at adroddiad Statudol y Cyngor. Yn wreiddiol, neilltuwyd cyfarfod y cyngor heddiw i rannu'r adroddiadau mewn perthynas â'r llifogydd ag Aelodau ond dywedodd yr arweinydd fod yr eitem wedi'i gohirio i adeg pan fo'r

holl wybodaeth ar gael a'r adroddiadau perthnasol wedi'u cyhoeddi ”

Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Byddwch yn ymwybodol bod deiseb yn cael ei thrafod yn y Senedd yn fuan mewn perthynas ag ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd. Yn rhan o'r ymgyrch honno rydym wedi derbyn tystiolaeth ysgytwol gan bobl am yr effaith barhaol y mae'r llifogydd wedi'i chael ar iechyd meddwl a chorfforol. O'ch ymateb mae'n amlwg nad ydym wedi gallu casglu tystiolaeth gan breswylwyr ac mae'n ymddangos nad oes gennym y bwriad i wneud hynny mewn ffordd systematig. A yw diffyg capasiti yn gyfrifol am hynny? Am beidio â chasglu tystiolaeth gan y rheiny a gafodd eu heffeithio neu am beidio â cheisio i gasglu tystiolaeth? Neu a yw'n fater o beidio â gweld y gwerth fel Awdurdod Lleol? Os yw'n ddiffyg o ran capasiti, a fydddech chi nawr yn cefnogi ymchwiliad annibynnol fel y gallwn gael darlun llawn o'r effeithiau nid yn unig o ran gwybod pa waith sydd angen ei wneud ond hefyd sut i gefnogi preswylwyr sydd wedi cael eu heffeithio o ran iechyd meddwl ac iechyd corfforol ochr yn ochr â'r economi leol. ”

Ymateb gan y Cynghorydd Morgan:

“Pwysleisiodd yr Arweinydd, lle mae'r Cyngor yn gyfrifol, er enghraifft o ran llifogydd dŵr wyneb, ei fod yn ymgysylltu â thrigolion trwy'r ymgynghorwyr y mae wedi'u penodi. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae'r llifogydd yn dod o'r afonydd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol. Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am gynnal ymchwiliad mewn perthynas â'r llifogydd dŵr budr. Mae yna nifer o feysydd lle mae ymgynghorwyr a chontractwyr yn cyflawni gwaith, mae'r ymgynghorwyr yno i gasglu datganiadau a thystiolaeth ffotograffig a fideo gan breswylwyr. Daeth yr Arweinydd â'i ymateb i ben trwy nodi y byddai'n hapus i siarad â'r Aelod yn unigol mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion a godwyd. ”

Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Webster i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Mae stormydd y gaeaf wedi achosi llifogydd mawr yn llawer o'n cymunedau. A oes amserlen ar gyfer trwsio'r ceuffosydd a fethodd yn Nhreorci yn ystod Storm Dennis? ”

Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:

“Dywedodd yr Arweinydd fod modd cwestiynu a oedd y ceuffosydd wedi methu ai peidio, mewn rhai achosion roedd y glaw yn ormod ar gyfer y ceuffosydd ac roedden nhw wedi gweithio hyd eithaf eu gallu. Doedden nhw ddim wedi gallu ymdopi â faint o ddŵr oedd yno. Dywedodd yr Arweinydd fod CNC bellach wedi nodi bod y storm yn cynrychioli digwyddiad 1 ym mhob 290 mlynedd. Mae'r rhan fwyaf o'r seilwaith wedi'i gynllunio i wynebu storm 1 ym mhob 100 mlynedd gan ystyried newid yn yr hinsawdd. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod tua 2 cilometr o'r geuffos wedi cael ei archwilio yn ardal Treorci, gyda llawer o'r gwaith hynny'n cael ei gyflawni o dan y ddaear, sy'n gofyn am arolygon â chamerau a phlymwyrr. Cadarnhaodd bod 25 tunnelli o ddeunyddiau wedi cael ei symud i sicrhau'r amodau gorau posibl. Mae cewyll dros dro wedi'u gosod lle bo angen ac mae'r Cyngor wedi cadarnhau cyllid ar gyfer wal ben newydd a chilfach newydd. ”

Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Webster i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Dyweddodd y Cynghorydd Webster fod hwn yn digwydd yn aml. Rwy'n falch o glywed bod carreg groes newydd yn cael ei gosod ar y geuffos. A fydd y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb os bydd yn gorlifo eto a gan ystyried bod trigolion yn ofni llifogydd yn ystod cyfnodau o dywydd garw, a fydd y cyngor yn cefnogi Llywodraeth Cymru neu gyfleoedd cyllido eraill i osod drws amddiffyn rhag llifogydd ar eiddo neu a fydd y gwaith hynny'n cael ei adael i'r elusennau?”

Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:

“Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod y Cyngor yn cefnogi ceisiadau ar gyfer drysau amddiffyn rhag llifogydd, ble y bo'n addas. Fodd bynnag, os oes angen trwsio ceuffos neu os oes angen gweithredu bydd angen dod o hyd i ffynhonnell y llifogydd. Bydd mesurau amddiffyn rhag llifogydd yn cael eu hystyried mewn achosion lle nad oes modd lliniaru ffynhonnell y llifogydd. Mae'r Cyngor yn y broses o gyflwyno camau gorfodi yn erbyn un tîrffeddiannwr mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran atgyweirio neu berchnogaeth. Bydd y Cyngor yn cyflawni'i gyfrifoldebau a bydd y Cyngor yn gweithredu fel yr awdurdod rheoli llifogydd, ble mae angen, ac yn cyflwyno hysbysiadau i'r rheiny sydd wedi cyflawni gwaith na ddylen nhw'i gyflawni. Cyfeiriodd yr Arweinydd at argae answyddogol mewn un cwrw dŵr yn Nhreorci a gafodd ei symud ar unwaith yn dilyn y storm. Nid cyfrifoldeb y Cyngor yw datrys pob achos o lifogydd, bydd yn gweithio ar y cyd ag eraill, gan gynnwys tîrffeddiannwyr, lle bo angen.”

8 Diweddariad gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr mewn perthynas â'r Coronafeirws yn Rhondda Cynon Taf

Dyweddodd yr Arweinydd mai dyma oedd y trydydd diweddariad mewn perthynas â'r coronafeirws yn y Fwrdeistref Sirol yr oedd ef wedi'i ddarparu i'r Cyngor. Manteisiodd ar y cyfle i egluro rhai o'r pwyntiau allweddol mewn perthynas â'r cyfyngiadau symud lleol. Pwysleisiodd na fydd unrhyw adeilad trwyddedig yn gallu gwerthu alcohol ar ôl 10pm, mae hyn yn cynnwys siopau trwyddedig, pob bar a bwyty. Bydd modd i breswylwyr gwrdd yn yr awyr agored am y tro a fyddan nhw ddim yn gallu cwrdd ag aelodau o'r aelwyd estynedig y tu mewn neu ffurfio aelwyd estynedig.

Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd cadw adeiladau trwyddedig ar agor yn ystod yr amser yma i atal preswylwyr rhag dod at ei gilydd a chymdeithasu yng nghartrefi ei gilydd ac i weithredu'r ddarpariaeth olrhain cysylltiadau a sicrhau bod yr hylif diheintio dwylo yn cael ei ddarparu mewn adeiladau trwyddedig.

Rhannodd yr Arweinydd ddata mewn perthynas â nifer yr achosion positif yn RhCT i bwysleisio'r niferoedd cynyddol o achosion positif: -

Medi 2020 yn RhCT

10 Medi - 9 achos y dydd
11 Medi - 23 achos y dydd
12 Medi - 25 achos y dydd
13 Medi - 47 achos y dydd
15 Medi - 38 achos y dydd

16 Medi - 62 achos y dydd
17 Medi- 32 achos y dydd
18 Medi- 45 achos y dydd
19 Medi - 47 achos y dydd
20 Medi -56 achos y dydd
21 Medi -40 achos y dydd
22 Medi - 77 achos y dydd
23 Medi- 93 achos y dydd

Mae'r data'n dangos bod cynnydd o 9 i 93 achos positif y dydd wedi bod mewn llai na 14 diwrnod. Dywedodd yr Arweinydd mai'r cynnydd o ganlyniad i brofion sy'n peri pryder, a oedd 1.5-2% ar gyfer pob 100 o bobl sy'n cael eu profi ychydig wythnosau yn ôl ac sydd bellach (ar 22 Medi 2020) wedi cyrraedd 9%. Mae hyn yn dystiolaeth o drosglwyddiad yn y gymuned.

Nododd yr Arweinydd yr adeiladau hynny, adeiladau trwyddedig, archfarchnadoedd a busnesau eraill sydd wedi derbyn hysbysiadau cau ac sy'n parhau i fod ar gau, yr adeiladau hynny sydd wedi derbyn hysbysiadau gwella sy'n parhau i weithredu a'r rheiny sydd wedi'u diddymu yn dilyn gwaith cydymffurfio a gwelliannau cyflym.

Gyda thristwch mawr, gwnaeth yr Arweinydd ddatganiad byr mewn perthynas â marwolaeth ddiweddar aelod o staff y Cyngor, sy'n gysylltiedig â Covid. Estynnodd ei gydymdeimlad â'r teulu yn ystod y cyfnod trist yma.

Dywedodd yr Arweinydd fod mesurau cadarn a phrosesau penodol ar waith lle mae achosion wedi'u nodi mewn ysgolion. Cyfeiriodd at y panel sy'n cynnwys Swyddogion Iechyd y Cyhoedd a Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd sydd ar waith er mwyn cynghori athrawon a rhieni mewn perthynas â gweithdrefnau cyfathrebu a chymau gweithredu addas, megis glanhau'r ysgol neu os oes gofyn i unigolion/dosbarthiadau cyfan yn hunan-ynysu. Pwysleisiodd bwysigrwydd gwaith y carfanau olrhain cysylltiadau a phwysigrwydd mynd am brawf mewn modd amserol.

Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd cael prawf os oes gyda chi symptomau ac esboniodd na fydd cynnal rhagor o brofion yn arwain at fwy o achosion positif ac o ganlyniad i hynny, cyfyngiadau symud. Ychwanegodd yr Arweinydd bod nodi enghreifftiau o drosglwyddo yn y gymuned a sicrhau bod preswylwyr yn hunan-ynysu yn allweddol wrth i ni frwydro yn erbyn nifer yr achosion positif.

Esboniodd yr Arweinydd nad yw'r broses brofi wedi bod yn un syml heb ei herio. Yn dilyn llobio i sefydlu canolfan brofi yng Nghwm Clydach, cafodd ei gwtogi ar ôl ychydig ddyddiau yn unig. Cafodd y capasiti ychwanegol ei gynyddu yn ystod y penwythnos blaenorol mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a chafodd y terfyn ei gynyddu o 60 i 120 o brofion. Cafodd tua 1,000 o brofion eu cyflawni yn ystod y penwythnos cyntaf. Yn dilyn hynny mae'r terfyn wedi cynyddu i 300. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod safleoedd profi Circo (y safleoedd dros dro) wedi'i gyfyngu i 300 o brofion ond mae'n bosibl y byddai modd i'r safle yma gyflawni hyd at 500 prawf. Esboniodd yr Arweinydd fod modd cynnal 300 prawf y dydd yn y cyfleuster yng Nghwm Clydach ac ym maes parcio Canolfan Chwaraeon Abercynon, yn ogystal â'r Labordy Goleudy ym Mharc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon. Ar gyfartaledd mae modd i rhwng tri a phump diwrnod mynd heibio nes bod yr unigolyn yn derbyn canlyniadau'r prawf.

Diolchodd yr Arweinydd i nifer o staff gan gynnwys gweithwyr Gwasanaethau

Eiddo'r Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sydd wedi cydweithredu i bennu'r gefnogaeth fwyaf priodol er mwyn cynnal a chefnogi'r canolfannau profi. Aeth yr Arweinydd ymlaen i egluro'r anawsterau cychwynnol sy'n gysylltiedig â'r system brofi Genedlaethol sydd wedi arwain at bobl o Gaerfaddon a Bryste yn teithio i gael prawf ar safle Abercynon. Ar hyn o bryd does dim cytundeb gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch trosglwyddo i sefydlu system cadw lle leol.

Diolchodd yr Arweinydd hefyd i'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn enwedig Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Chadeirydd y Garfan Rheoli Digwyddiadau, sydd wedi gweithio'n ddiflino ochr yn ochr â staff y cyngor. Dywedodd y byddai unrhyw newidiadau yn nifer yr achosion positif yn debygol o fod yn amlwg ar ôl y 7-10 diwrnod nesaf.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod sefyllfa debyg o ran cynnydd yn nifer yr achosion i'w weld ar draws y tri awdurdod lleol yn ardal Cwm Taf Morgannwg gyda'r effaith ar ein gwasanaethau cyhoeddus bellach yn amlwg. Yn ardal Cwm Taf Morgannwg, mae 43 o weithwyr allweddol (swyddogion yr heddlu, staff ysbytai, athrawon a staff gofal) a 94 o ddisgyblion neu staff ar draws 43 o ysgolion wedi profi'n positif. Mae'r cyhoeddiad a gafodd ei wneud y prynhawn yma'n cadarnhau bod yna 34 achos mewn dwy ward yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, mae hyn yn gysylltiedig â throsglwyddo'r feirws yn yr ysbyty. O ganlyniad i hynny, mae cynnydd wedi bod yn nifer y profion sydd wedi'u cynnal, mae wardiau wedi'u cau ac mae pob person sy'n dod i'r ysbyty am driniaeth wedi'i threfnu ymlaen llaw ac mewn argyfwng yn cael ei brofi.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y cynnydd yn nifer yr achosion yn cael effaith ar y gwasanaeth profi, olrhain a diogelu. Mae RhCT yn cynnal y gwasanaeth yma ar ran y 3 awdurdod lleol yn ardal Cwm Taf Morgannwg ond mae'r gwasanaeth yn ymdopi'n dda â'r cynnydd yn nifer yr achosion. Dros y 19 diwrnod diwethaf mae'r garfan wedi gweithio gyda 947 o achosion positif sydd wedi arwain at gysylltu â 3,122 o gysylltiadau trwy neges destun neu dros y ffôn, mae modd i hyn fod yn broses araf. Mae'r niferoedd yn cyfateb i gysylltu â dros 4,000 o bobl bob dydd.

Roedd y Prif Weithredwr hefyd wedi atgoffa Aelodau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar ran Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr. Nododd bod 26% o holl achosion positif yng Nghymru hyd yn hyn yn deillio o ardal Cwm Taf Morgannwg. Mae'r llwyth gwaith ychwanegol wedi effeithio rhywfaint ar gyflawniad dros y 5 diwrnod diwethaf, gyda 87% o achosion yn derbyn sylw o fewn 48awr a 78% o'r holl gysylltiadau'n derbyn sylw o fewn yr un cyfnod. Cafodd y Sir gymorth ychwanegol yn ddiweddar gan Gyngorau Bwrdeistref Sirol Powys a Sir Fynwy, sydd wedi gweld nifer fach o achosion, i ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith olrhain cysylltiadau. Mae staff wedi cael eu hadleoli o ddyletswyddau eraill er mwyn cynorthwyo'r garfan, sydd bellach â 70 aelod o staff. Bydd rhagor o staff yn cael eu recriwtio er mwyn ymdopi â'r cynnydd parhaus o ran galw.

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad mewn perthynas ag archwiliadau sy'n cael eu cynnal mewn eiddo trwyddedig ac archfarchnadoedd yn ogystal ag archwiliadau sy'n cael eu cynnal ar safleoedd â nifer fawr o weithwyr. Mae gwaith recriwtio'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd er mwyn i garfanau gorfodi gefnogi a herio busnesau ym meysydd gweithgynhyrchu, hamdden, lletygarwch a thwristiaeth i sicrhau'u bod nhw'n cydymffurfio â'r rheoliadau Covid.

Gofynnwyd bod Aelodau'n anfon eu cwestiynau a'u hymholiadau mewn perthynas â'r rheoliadau newydd trwy e-bost (Gwasanaethau Aelodau). Byddan nhw'n derbyn ymateb amserol. Cafodd Aelodau wybod bod y galw ym meysydd â staff allweddol yn uchel iawn ar hyn o bryd, ac o ganlyniad i hynny mae'n bosibl y bydd rhywfaint o gyfyngu mewn rhai meysydd gwasanaeth eraill er mwyn adleoli staff i ymdopi â'r galw yn y meysydd gwasanaeth allweddol yma. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r posibilrwydd o gyfyngu ar rai gwasanaethau mewn rhai meysydd yn cael ei darparu maes o law.

Yn dilyn cyflwyniad y Prif Weithredwr, dangoswyd map ar y sgrin sy'n dangos nifer yr achosion Covid a gadarnhawyd ledled y Fwrdeistref Sirol. Dywedodd yr Arweinydd fod yna achosion ym mhob ardal erbyn hyn, hyd yn oed mewn ardaloedd cynnyrch ehangach haen is sy'n dangos bod pobl y cymoedd yn amlwg yn teithio ar hyd a lled y sir i siopa a gweithio.

I gychwyn, cafodd yr Arweinwyr Grŵp gyfle i holi cwestiynau: -

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)

- Arolygiadau - a ydyn nhw ar hap neu'n cael eu gweithredu ar ôl i'r Cyngor dderbyn gwybodaeth neu gŵyn?
- A oes modd i ni gael diweddariad ar leoliad y canolfannau profi a sicrhau bod arwyddion clir yn cael eu gosod er mwyn osgoi unrhyw gyswllt rhwng y rheiny sy'n cael canlyniad positif a busnesau?
- Pa mor hir ydyn ni'n cynllunio ar gyfer y trefniadau newydd hyn? Sut y byddwn ni'n darparu adnoddau ar gyfer unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei angen?

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor i'r holl ymholiadau a godwyd a dywedodd fod y canolfannau profi yn cael eu rheoli gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac felly mae'n rhaid ceisio caniatâd ar gyfer sefydlu canolfannau. Cytunwyd y bydd hyn yn para am wythnos, a bod modd gwneud cais i ymestyn y cyfnod yma, mae hyn yn esbonio'r oedi wrth rannu gwybodaeth a chadarnhau lleoliad.

